HEB FARC DIOGELU

GWARCHOD

ATAL

ADFER

2010 - 2013
CYNLLUN PLISMONA STRATEGOL
AWDURDOD HEDDLU SIFIL NIWCLEAR

Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear
Cynllun Plismona 2010-2013

CYNNWYS

2010 - 2013 CYNLLUN STRATEGOL — Tud

Rhagair gan Gadeirydd yr Awdurdod Heddlu 3

Rhagair a Throsolwg Strategol gan y Prif Gwnstabl 4

ADRAN 1: 1.1 Cyflwyniad 6
1.2 Y Cyd-destun Strategol 6
1.3 Gweledigaeth, Cenhadaeth a Gwerthoedd Creiddiol yr Heddlu 9

ADRAN 2: Amcanion Strategol yr Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear 10

ADRAN 3: Blaenoriaethau Lefel Uchel yr Heddlu Sifil Niwclear 10

ADRAN 4: 2010/11 Rhoi Blaenoriaethau Lefel Uchel ar Waith gan Adrannau ac Unedau 12

ADRAN 5: Rhoi'r Rhaglen mewn Grym 14

ADRAN 6: Gweithredu Blaenoriaethau Plismona Lefel Uchel 16

ADRAN 7: Fframwaith Mesur Cerdyn Sgorio Cytbwys 17

ADRAN 8: Adeiladu Niwclear Newydd 18

ADRAN 9: Adran Ynni a Newid Hinsawdd 19

ADRAN 10: Croesgyfeirio at Flaenoriaethau Cenedlaethol 19

ADRAN 11: 2010 - 2011 CYNLLUN PLISMONA 23

ADRAN 12: Ystadegau Perfformiad 32

ADRAN 13: Crynodeb Ariannol 32

Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear
Cynllun Plismona 2010-2013

Rhagair gan Gadeirydd yr Awdurdod Heddlu

Wrth i'r *Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear* edrych ymlaen at y sialensau y mae'r *Awdurdod* a'r *Heddlu* fel ei gilydd yn eu wynebu, mae'n iawn fy mod yn cyflwyno'r cynllun hwn yn agored fel un sydd yn arwydd o newid arwyddocaol. Yn y cynllun hwn, fe welwch bod yr *Awdurdod Heddlu* wedi adnabod 3 blaenoriaeth strategol. Mae'r rhain mor bwysig yn y cyfnod maith fel fy mod eisiau tynnu eich sylw atynt yma, ar ddechrau ein Cynllun Plismona Strategol:

- Sefydlu'r gallu gweithredol i roi'n cenhadaeth ar waith.
- Creu'r digonolrwydd i roi'n cenhadaeth ar waith heddiw ac yn y dyfodol.
- Sicrhau'r radd uchaf o hyder ynom a chefnogaeth i ni ymhlith ein budd-ddeiliaid.

Cytunwyd ar y blaenoriaethau hyn yn dilyn ymgynghori a thrafod gyda thîm Prif Swyddogion Heddlu yr *Heddlu Sifil Niwclear*, yr adran sy'n ein noddi, sef yr *Adran Ynni a Newid Hinsawdd,* a'n rheolydd - y *Swyddfa Diogelwch Sifil Niwclear*. Mae'n debyg y bydd y sialensau hyn yn ein hwynebu tra pery'r cynllun hwn, sy'n rhedeg hyd 2013, oherwydd bod y blaenoriaethau hyn yn gosod sialens fawr i'n sefydliad.

Mae'r ddwy flaenoriaeth gyntaf yn hunan eglurhaol, ac mae'r drydedd yn gofyn i'n sefydlaid yn ei gyfanrwydd fod â rhagor o ffocws ar roi gwasanaeth, ar gyfarfod â'n lefelau gwasanaeth, cyfathrebu'n dda gyda'n budd-ddeiliaid, gan gynnwys y cyhoedd, a bod yn agored a thryloyw ynglŷn â'r hyn rydym yn ei wneud. Rhaid i ni fod yn sefydliad sy'n ennyn hyder ym mhawb.

Fel Cadeirydd yr *Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear,* ac ar waethaf yr hinsawdd ariannol dynn a wynebwn, rydw i'n benderfynol y gwnawn yr hyn y mae galw arnom i'w wneud er mwyn cyflawni gofynion y blaenoriaethau hyn, gan wneud pa newidiadau bynnag y mae'n rhaid wrthynt wrth fynd yn ein blaenau. Rydw i'n cydnabod hefyd y bydd llwyddo i gyflawni'r galw yn ddibynnol ar gydweithio effeithiol ar draws y rhaglen diogelwch sifil niwclear, lle mae'r *Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear* a'r *Heddlu Sifil Niwclear* yn chwarae rhan gefnogol bwysig o dan arweiniad yr *Adran Ynni a Newid Hinsawdd.*

Ym myd cymhleth diogelwch sifil niwclear, mae darparu trefn lywodraethol effeithiol, sef ffwythiant blaenaf yr *Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear*, ynddo'i hun yn bur anodd. Yn y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn gwneud rhagor o ymdrech i ddal yr *Heddlu Sifil Niwclear* yn atebol am roi'r cynllun hwn a chynlluniau i'r dyfodol ar waith mewn dull cost effeithiol. Wrth wneud hynny, mae'r *Awdurdod Heddlu* yn darparu dulliau gwirio a mantoli pwysig ar ran y cyhoedd, y diwydiant niwclear a'r llywodraeth. Fel corff sy'n cael ei ariannu i raddau helaeth gan y cyhoedd, byddwn hefyd yn edrych mwy tuag at allan ac yn weithredol yn chwilio am gyfleoedd i gael cyswllt â'r cyhoedd fel dull o roi sicrwydd bod y plismona a ddarperir gan yr *Heddlu Sifil Niwclear* yn effeithiol ac effeithlon, yn ogystal â bod yn gymesur â'r bygythiadau a wynebwn o du terfysgaeth ryngwladol.

Bydd rhoi'r cynllun hwn ar waith yn galw am ymdrech sylweddol gan bawb sy'n ymwneud ag ef. Mae llawer o'r cyfrifoldeb hwnnw ar ysgwyddau ein Prif Gwnstabl a'i dîm tra medrus o Brif Swyddogion Heddlu (ACPO). Maent yn cychwyn rhoi'r cynllun hwn ar waith gyda chefnogaeth lawn eu *Hawdurdod Heddlu*, ac edrychwn ymlaen tuag at weld cynnydd yn y flwyddyn i ddod.

Chris Fox

Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear
Cynllun Plismona 2010-2013

Cadeirydd

Rhagair gan y Prif Gwnstabl

Mae'r Cynllun Plismona Strategol yn disgrifio sut y bydd yr *Heddlu Sifil Niwclear* yn gweithredu'r cyfeiriad strategol a dderbyniodd gan yr *Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear*. Cytunwyd ar y cynllun gyda nifer o fudd-ddeiliaid allweddol ac mae'n adlewyrchu'r cyd-destun economaidd, gwleidyddol a diogelwch y mae'r Heddlu, y llywodraeth a'r teulu niwclear mwy eang yn canfod eu hunain ynddo.

Yn arbennig, mae'r cynllun yn canolbwyntio ar yr angen am welliant parhaus ac ar i'r *Heddlu* adnabod yn gyflym sut y bydd yn ei addasu ei hun ac yn paratoi ar gyfer sialensau a ddaw yn sgil adeiladu gorsafoedd niwclear newydd, tra ar yr un pryd yn cefnogi'r broses gyfredol o greu ynni niwclear a'r rhaglenni datgomisiynu cyfredol. Mae'n fyd cymhleth gyda llinellau amser yn ymestyn ymhell i'r dyfodol ond nid ydynt yn asio'n dwt gyda'i gilydd. Oherwydd y pwyslais arbennig ar ddiogelwch a gwarchodaeth a'r gwahaniaethau cynhenid sy'n bodoli ym mhob safle niwclear yr ydym yn gweithio ynddi, mae rhai sialensau unigryw wrth gynnig gwasanaethau gwarchod heddlu arfog.

Sbardunodd datganiad cenhadaeth diwygiedig yr *Heddlu Sifil Niwclear*, y cytunwyd arno yn Chwefror 2008, ar yr angen am adolygiad cynhwysfawr o allu a digonolrwydd. Cwblhawyd yr adolygiad y cyntaf erbyn hydref 2008 a'r canlyniad oedd cynllun cyflawni cynhwysfawr tair blynedd, *Gwawr Newydd* (*New Dawn*), a ddyluniwyd i roi delwedd newydd hanfodol a gwell i'r *Heddlu* os yw am gael y sgiliau y mae ei angen a'r gallu i gyfarfod â'i Genhadaeth, o ystyried y bygythiad terfysgol cyfredol. Mae'r Cynllun Plismona Strategol yn amlinellu'r cam nesaf ar gyfer cyflwyno mwy o brosiectau cysylltiedig â 'Gwawr Newydd', tra'n cynnal y manteision gwirioneddol iawn a gronnwyd hyd yma mewn hyfforddiant gyda gynnau, er enghraifft. O safbwynt yr ail, bydd dwy elfen hanfodol, sef archwiliad manwl o nifer y swyddogion heddlu arfog y mae eu hangen ym mhob safle er mwyn darparu'r gwasanaeth sy'n berthnasol i'r genhadaeth, ac edrych yn fwy eang ar sut y gall yr Heddlu wella ei wasanaethau gwarchod gyda heddlu arfog yn y dyfodol. Mae'r adolygiad ehangach hwn wedi dechrau cael ei adnabod fel Rhaglen y Dyfodol (Futures Programme) ac mae llwybrau gwaith penodol y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yn cynnwys: sut y gellid ailbroffilio'r gweithlu, ynghyd â thelerau ac amodau mwy priodol newydd ar gyfer y gweithlu hwnnw, a sut y gellid gwneud ein prosesau ariannu a busnes yn symlach a'u cyfoesi gyda mwy o gyswllt â llinellau amser y diwydiant a thybiadau busnes. Tra anelwn, gyda chymorth y *Swyddfa ar gyfer Diogelwch Sifil Niwclear* a thrwyddedigion safleoedd, at fod wedi cwblhau rhan gyntaf yr adolygiad digonolrwydd cyn diwedd 2010, bydd datblygiad Rhaglen y Dyfodol a'i gweithrediad yn rhychwantu'r tair blynedd nesaf.

O weithredu'n llwyddiannus, bydd yr *Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear* yn gallu cael golwg fwy eglur ar nifer o faterion: y llinell amser sy'n gysylltiedig â rhai o'r safleoedd cymyn hŷn, yr amserlen ar gyfer adeiladu newydd a lleoliadau, gallu'r Heddlu a'i ddigonolrwydd ar gyfer gwneud y gwaith gyda chymysgedd gweithlu a strwythur darparu gwasanaeth diwygiedig, a hynny'n arwain at sefyllfa amgen er mwyn sicrhau ansawdd a gwerth am arian. Yn hanfodol, yr ydym yn gweld bod gorffen gweithredu'r adolygiadau maint a chynhwysedd, a Rhaglen y Dyfodol, yn llwyddiannus yn hollol angenrheidiol os ydym ni yn yr *Heddlu Sifil Niwclear* am ddarparu sicrwydd i'r *Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear* ac i'r diwydiant niwclear, y llywodraeth a'r cyhoedd, yn eu tro, bod yr *Heddlu* yn wirioneddol "addas i'r diben" ac mewn sefyllfa i gyfarfod â sialensau i'r dyfodol, yn ogystal â rhai sy'n bodoli eisioes.

Mae'r Cynllun Plismona Blynyddol yn adlewyrchu'r Blaenoriaethau Lefel Uchel a adnabuwyd yn y Cynllun Strategol ac yn gosod y cerrig milltir ar gyfer 2020 -11. Mynegwyd y rhain fel pedair Blaenoriaeth Gyflawni Allweddol (KPD, sef *Key Delivery Priorities*, yn y Saesneg): Gallu Gweithredol; Y Defnydd Gorau o Adnoddau; Gwelliant Parhaus ac Ymrwymiad Budd-ddeiliaid ac,

yn olaf, Datblygu a Chynnal Gweithlu Modern. Mae elfen o weithgareddau penodol a mesuriadau perfformiad y gallwn eu defnyddio i dracio a mesur llwyddiant trwy Gerdyn Sgorio Cytbwys yr Heddlu ym mhob Blaenoriaeth Gyflawni Allweddol. Oherwydd bod llawer o'r gwaith manwl y mae'n rhaid wrtho yn sensitif wrth natur, nid yw'r Cynllun Plismona Blynyddol yn cynnwys llawer o fanylion ar gyfrifoldebau penodol a deilliannau eglur yr ydym wedi ymrwymo i'w rhoi ar waith. Cynhwysir y rhain mewn cynlluniau rhoi mewn grym mewnol y mae'n rhaid i unedau plismona gweithredol ac adrannau berfformio yn unol â hwy. Gosodwyd y gyllideb ar gyfer 2010-11 ar £62 miliwn, ac o hynny, mae £41 miliwn wedi ei ddynodi ar gyfer gwasanaethau plismona arfog yn y safleoedd, £11 miliwn ar gyfer cefnogi'r gwasanaethau hynny, a £10 miliwn ar swyddogaethau swyddfa. Bydd yn rhaid ariannu llawer o'r gwaith ar yr Adolygiad Digonolrwydd a Rhaglen y Dyfodol trwy arbedion effeithlonrwydd, ac ar sail cost cyfle, yr ydym yn hyderus o'i gyflawni tra'n parhau i gynnal lefel warchod uchel ar gyfer y diwydiant sifil niwclear.

Richard Thompson
Prif Gwnstabl

ADRAN 1: CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN

1.1 Cyflwyniad

Mae'r cynllun hwn yn amlinellu'r materion strategol allweddol i ddelio â hwy dros y tair blynedd nesaf a sut y bydd perfformiad yr *Heddlu Sifil Niwclear* yn cael ei asesu gan yr *Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear.*

Rhannwyd y ddogfen yn ddwy adran:

- y Cynllun Strategol yn cynnwys trosolwg ac asesiad o'r newidiadau y mae eu hangen dros y tair blynedd nesaf er mwyn delio â'r Amcanion Strategol, a
- Chynllun Plismona Blynyddol yn dangos y blaenoriaethau lefel uchel penodol y bydd yr *Heddlu Sifil Niwclear* yn mynd i'r afael â hwy yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod, ynghyd â mesuriadau perfformiad a thargedau a gaiff eu defnyddio i sefydlu a monitro effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei brosesau ar draws ei holl weithgareddau.

Mae'r cynllun plismona blynyddol hwn yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer datblygu'r Uned Weithredol a chynlluniau Adrannol, ac ar gyfer rheoli ac amcanion personol cyflogedigion. O ganlyniad, mae dolen gyswllt uniongyrchol rhwng amcanion strategol yr *Awdurdod Heddlu*, blaenoriaethau lefel uchel yr *Heddlu* ac amcanion personol unigolion cyflogedig.

1.2 Y Cyd-destun Strategol

Mae'r *Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear* yn Gorff Cyhoeddus An-Adrannol sy'n adrodd i'r *Adran Ynni a Newid Hinsawdd* sydd â'r cyfrifoldeb yn ei gyfanrwydd o safbwynt polisi diogelwch safleoedd sifil niwclear y DU. Mae'r *Awdurdod* yn cydnabod bod strwythur y diwydiant niwclear yn newid gyda datgomisiynu ac adeiladu cyfleusterau newydd sy'n gallu cynhyrchu ynni niwclear. Mae'r *Heddlu* yn dechrau cynnwys newidiadau o'r fath fel ffactor yn ei gynllunio strategol a chaiff hyn ei gryfhau yn y dyfodol.

O dan *Ddeddf Ynni 2004* mae'r *Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear* gyda'r siars i sicrhau cynnal *Heddlu Sifil Niwclear* effeithlon ac effeithiol a'i ffwythiant blaenaf yw amddiffyn safleoedd niwclear trwyddedig nad ydynt yn cael eu defnyddio'n gyfangwbl, neu yn bennaf, i ddibenion amddiffyn ac hefyd diogelu deunyddiau niwclear ym Mhrydain Fawr a mannau eraill.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb hwn, mae'r *Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear* yn darparu cyfeiriad strategol ar gyfer yr *Heddlu* gan gymryd i ystyriaeth newidiadau yn y fframwaith gyfreithiol ar gyfer sefydliadau'r llywodraeth, newidiadau yn yr amgylchedd ddiogelwch, gwybodaeth a ddarperir gan reolaeth safleoedd niwclear a gan fudd-ddeiliaid eraill.

Amrywia'r cyfathrebu am y cyfeiriad strategol hwnnw yn ôl amgylchiadau a natur y testun dan sylw, ond caiff ei gyfeirio trwy gyfarfodydd yr *Awdurdod Heddlu* a'i bwyllgorau a thrwy gymeradwyo y

Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear
Cynllun Plismona 2010-2013

Cynllun Plismona Startegol blynyddol hwn a gosod cyllideb flynyddol i ddarparu adnoddau ar gyfer yr *Heddlu Sifil Niwclear* fel y gall gyflawni ei amcanion.

Er mwyn cynorthwyo'r *Awdurdod* i benderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer y cyfeiriad strategol hwnnw, mae'n cynnal cofrestr risg strategol sy'n adnabod y prif risgiau i'r sefydliad, a thrwy hynny y risgiau sy'n peri'r pryder mwyaf. O blith y risgiau strategol hyn, mae cyfres o amcanion strategol yn cael eu diffinio fel materion i'r *Heddlu* ddelio â hwy dros y tair blynedd nesaf.

Er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau a gafodd eu hadnabod, mae'r Heddlu yn ymgymryd â rhai darnau o waith arwyddocaol. Mae Rhaglen Gwawr Newydd yn rhychwantu tair blynedd ac yn cwmpasu uwchraddio'r gallu i weithredu a mesurau gwrth-derfysgaeth. Pan fydd wedi gorffen asesu bygythiadau i safleoedd unigol, rhaid i'r Heddlu ymgymryd ag adolygiad llawn o'i allu. Er mwyn sicrhau bod yr Heddlu yn addas i'r diben ac yn gallu cyfarfod â gofynion yn y dyfodol, cychwynnwyd Rhaglen y Dyfodol. Mae'r Cynllun Strategol hwn yn darparu manylion ar cyflawni am flwyddyn ac yn rhestru Blaenoriaethau Lefel Uchel y mae'n rhaid ymgymryd â hwy dros y tair blynedd nesaf oherwydd bod y rhaglenni gwaith mawr hyn, a gofynion plismona i'r dyfodol ar gyfer y sector niwclear, yn dal i ddatblygu.

Mae'r diagram a ganlyn yn dangos y broses a ddefnyddir i lunio Blaenoriaethau Lefel Uchel.



Dyma'r risgiau strategol y mae'r Awdurdod Heddlu eu hadnabod a'r amcanion strategol i leihau'r risgiau hynny:

Risg Strategol	Amcanion Strategol
Gallu a Digonolrwydd: Nid yw'r *Heddlu* yn llwyddo i gyflawni'r lefel gallu a digonolrwydd gweithredol a gytunwyd. Nid oes rhaglen o welliant gweithredol parhaus yn ei lle.	Sefydlu'r gallu gweithredol i gyflawni'n cenhadaeth.
Rhaglen Gwawr Newydd: Trwydded i ddefnyddio gynnau. Nid oes gan yr *Heddlu* drwydded defnyddio gynnau lawn.	Sefydlu'r gallu gweithredol i gyflawni'n cenhadaeth. Creu'r cynhwysedd i gyflawni'n cenhadaeth heddiw ac yn y dyfodol.
Rhaglen y Dyfodol: Mae angen i gyfundrefnau galluogi, fel adnoddau dynol a chyfundrefnau swyddfa gefn, fod yn abl i gyfarfod ag anghenion busnes y sefydliad yn y dyfodol.	Creu'r cynhwysedd i gyflawni ein gwasanaeth heddiw ac yn y dyfodol
Trefn Lywodraeth Allanol: Rolau, cyfrifoldebau a pherthnasau gyda phartneriaid allweddol (*Swyddfa ar gyfer Diogelwch Sifil Niwclear* a'r *Adran Ynni a Newid Hinsawdd*) a budd-ddeiliaid (Cwmnïau Trwydded Safle a'r diwydiant niwclear) wedi eu diffinio'n wael a heb fod yn gweithredu'n effeithiol.	Sicrhau'r radd uchaf o hyder a chefnogaeth gan ein Budd-ddeiliaid.
Trefn Lywodraeth Fewnol: Rolau, cyfrifoldebau a pherthnasau rhwng deiliaid swyddi allweddol heb fod yn gweithio ar eu gorau.	Gwella ymrwymiad Budd-ddeiliaid.

Er mwyn sicrhau cyflawni'r gorau, defnyddir yr amcanion i geisio delio â meysydd gwelliant cyfatebol, megis lleihau'r risgiau.

1.3 Gweledigaeth, Cenhadaeth a Gwerthoedd Creiddiol yr Heddlu

Gweledigaeth

Cael cydnabyddiaeth ein bod yn ddarparwyr gwasanaeth safon bydeang ar gyfer gwarchod deunyddiau a chyfleusterau niwclear.

CENHADAETH

Amddiffyn a gwarchod y safleoedd hynny y mae'n gyfrifol amdanynt gyda'r bwriad o atal mynediad anawdurdodedig at ddeunydd niwclear ac, os oes angen, adfer rheolaeth dros unrhyw ddeunydd niwclear y gellid bod wedi ei golli i bersonau anawdurdodedig.

Symud deunydd niwclear yn ddiogel a saff o fewn y DU ac yn Rhyngwladol.

Gwerthoedd Creiddiol

Parch
Byddwn yn dangos parch at y naill a'r llall, yn gosod gwerth ar wahaniaethau unigol ac yn cynnal ein busnes yn deg.

Gonestrwydd
Byddwn yn parhau i adeiladu ymddiriedaeth trwy fod yn agored, gonest a thryloyw, gan gyfrifoli am ein gweithredoedd a gwneud yr hyn yr ydym yn ei ddweud.

Ymrwymiad i Ragoriaeth
Gwnawn yr hyn sy'n iawn, cadw ein haddewidion ac ymdrechu i ddarparu gwasanaeth rhagorol ym mhopeth a wnawn.

Buddsoddi mewn Pobl
Byddwn yn buddsoddi mewn pobl fel ein hadnodd mwyaf gwerthfawr, yn creu cyfleoedd i ddatblygu potensial ac yn dysgu o'n profiadau.

ADRAN 2: AMCANION STRATEGOL YR AWDURDOD HEDDLU SIFIL NIWCLEAR

- **Sefydlu'r gallu gweithredol i gyflawni'n cenhadaeth.**
- **Creu'r digonolrwydd i gyflawni'n cenhadaeth heddiw ac yn y dyfodol (gan ganolbwyntio ar hyblygrwydd, datblygu a chynnal gweithlu modern, gwelliant parhaus a'r defnydd gorau o adnoddau).**
- **Sicrhau ymddiriedaeth a chefnogaeth uchaf ein budd-ddeiliaid.**

ADRAN 3: BLAENORIAETHAU LEFEL UCHEL YR HEDDLU SIFIL NIWCLEAR

Bydd yr Heddlu yn mynd i'r afael ag amcanion strategol yr *Awdurdod* trwy gyflawni mewn perthynas â'r Blaenoriaethau Lefel Uchel a ganlyn. Rhydd y tabl isod fanylion sut y mae yn mynd i'w cyfarfod dros raddfeydd amser addas. Pan fo'r cyflawni yn digwydd yn y flwyddyn gyntaf, mae manylion tudalen a chyfeirnod y Cynllun Plismona Blynyddol. Bydd gosod a rheoli perfformiad yn llym yn sicrhau bod y targedaau a ddymunir yn cael eu gwireddu.

Amcan Strategol yr Awdurdod Heddlu	Blaenoriaethau Lefel Uchel yr Heddlu	Graddfa Amser Cyflawni	Cyfeirnod Cynllun Plismona Blynyddol
Sefydlu'r gallu gweithredol i gyflawni ein cenhadaeth.	Parhau i wella gallu Gweithredol i gyfarfod â Rhaglen Gwawr Newydd	2010-11	Tud. 24 / 1
	Datblygu a gweithredu ymhellach gynlluniau gwrth-derfysgaeth ym mhob safle	2010-11	Tud. 24 / 3
	Darparu gwell gallu i orchymyn a rheoli	2010-11	Tud. 26 / 6
	Datblygu ymhellach y gallu a'r digonolrwydd priodol o safbwynt ymateb arfog i gyfarfod â'r asesiad strategol o fygythiad a risg a model y gweithlu.	2011-13	
	Sicrhau bod yr Heddlu yn parhau i allu darparu'r gallu hebrwng.	2010-11	Tud. 24 / 4
	Cynllunio, cyflawni a gwerthuso rhaglen hyfforddi heddlu.	2010-11	Tud. 30 / 12
Creu'r digonolrwydd i gyflawni'n cenhadaeth heddiw ac yn y dyfodol.	Ymgymryd ag asesiad o'r digonolrwydd gweithredol angenrheidiol i gefnogi cyflawni'r genhadaeth	2010-11	Tud. 24 / 2
	Cwblhau cyfnod diffinio Rhaglen y Dyfodol	2010-11	Tud.au 28 & 30 / 11

Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear
Cynllun Plismona 2010-2013

Amcan Strategol yr Awdurdod Heddlu	Blaenoriaethau Lefel Uchel yr Heddlu	Graddfa Amser Cyflawni	Cyfeirnod Cynllun Plismona Blynyddol
	Monitro datblygiadau yn y sector ynni niwclear & gofynion diogelwch.	2010-13	Tud. 26 / 9
	Gweithredu telerau ac amodau cyflogaeth diwygiedig ar gyfer pawb sy'n gyflogedig.	2011-13	●
	Gweithredu model gweithlu diwygiedig sy'n cyflawni/ gweithredu i'r lefel weithredol angenrheidiol.	2011-13	●
	Gweithredu'r model ariannu a ddatblygwyd yn unol â Rhaglen y Dyfodol.	2011-13	●
	Datblygu ymhellach y gallu a'r digonolrwydd priodol o safbwynt ymateb arfog i gyfarfod yr asesiad strategol o fygythiad a risg a model gweithlu.	2011-13	●
	Datblygu partneriaethau cydweithiol ymhellach er mwyn cael y gwerth gorau am arian budd-ddeiliaid.	2011-13	●
	Parhau i symud ymlaen i uwchraddio cyfundrefnau TG a gwelliannau rhwydwaith.	2010-13	Tud. 26 / 7
	Cyflawni'n unol â'r gyllideb. Gweithredu	2010-13	Tud. 26 / 8
	Paratoi ar gyfer adeiladu niwclear newydd.	2010-13	Tud. 26 / 9
	Gweithredu'r galw plismona y cytunwyd arno yn safleoedd Capenhurst, Springfields and Chapelcross	2010-11	Tud. 26 / 9
Sicrhau ymddiriedaeth a chefnogaeth uchaf ein budd-ddeiliaid.	Darparu strategaeth wybodaeth, gan gynnwys cyfraniad yr Heddlu i'r llwybrau gwaith cenedlaethol CONTEST a CBRNE	2010-11	Tud. 24 / 5
	Gweithredu mesurau gwarchod a ddatblygwyd sy'n angenrheidiol ar gyfer deunydd niclear yn cael ei gludo o le i le.	2010-13	Tud. 24 / 4
	Mentrau ymrywmiad y cyhoedd parhaus a chydweithio gyda heddluoedd lleol.	2010-13	Tud. 28 / 10
	Gwella ymrwymiad Budd-ddeiliaid.	2010-11	Tud. 28 / 10
	Cefnogi, lle bo'n briodol, yr amcanion strategol ar atal amlhau arfau niwclear fel y caiff ei amlinellu yn adroddiad *The Road to 2010* .	2010-13	Dolennau cyswllt trwy'r Cynllun Plismona Blynyddol
	Monitro datblygiadau yn y sector ynni niwclear & gofynion diogelwch.	2010-13	Tud. 26 / 9

● Llwyddo i gyflawni mewn 2 & 3 Blynedd

D.S. Ni fydd pob Blaenoriaeth Lefel Uchel yn cael sylw yn 2010/11 ac, yn yr achosion hyn, dangosir ble'r ymgymerir â gwaith mewn 2 & 3 Blynedd.

ADRAN 4: 2010-11 RHOI BLAENORIAETHAU LEFEL UCHEL AR WAITH GAN ADRANNAU AC UNEDAU

Mae'r tabl isod yn darparu trosolwg o sut yr addaswyd y Blaenoriaethau Lefel Uchel ar gyfer lefel cynlluniau cyflawni Adrannol ac Unedau Gorchymyn Sylfaenol.

Yn ogystal â'r cynlluniau hyn, gosodwyd byrddau rhaglen yn unswydd i sicrhau trefniadau cynllunio a threfn rheolaeth priodol ar gyfer y llwybrau gwaith arwyddocaol:

- Gwawr Newydd
- Digonolrwydd yr Heddlu
- Gwrth-derfysgaeth
- Dyfodol

Mae cyllidebau adran yn cael eu dangos ynghyd ag unrhyw gronfeydd a ddyrennir ar gyfer darnau gwaith penodol.

High Level Priorities	Basic Command Units	Operations Support (including Escorts)	Human Resources & Organisational Development	Corporate Development	IT and Communications	Finance	Procurement and Estates	Special Branch	Programme Board
1. Gwawr Newydd Dyraniad cronfa penodol: £3,399M	●	●	●	●	●	●	●	●	●
2. Digonolrwydd yr Heddlu	●	●	●	●	●	●	●	●	●
3. Cynlluniau Gwrth-derfysgaeth	●	●		●	●			●	
4. Hebryngwyr Dyraniad Cronfa penodol: £3,070M		●	●						

Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear
Cynllun Plismona 2010-2013

High Level Priorities	Basic Command Units	Operations Support (including Escorts)	Human Resources & Organisational Development	Corporate Development	IT and Communications	Finance	Procurement and Estates	Special Branch	Programme Board
5. Gwybodaeth					●			●	
6. Gorchymyn a Rheoli	●	●	●		●	●	●	●	
7. Cyfundrefnau TG Dyraniad Cronfa penodol: £4,466M				●	●		●	●	
8. Cyllideb Cyllidebau Heddlu 2010/11: Refeniw £62,027M Cyfalaf Tebygol: £2,000M	●	●	●	●	●	●	●	●	●
9. Adeiladu Newydd	●	●						●	
10. Ymrwymiad Budd-ddeiliaid	●			●					
11. Dyfodol Dyraniad cronfa penodol: £250M	●	●	●	●	●	●	●		●
12. Hyfforddi & Datblygu Dyraniad Cronfa penodol:		●	●						

Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear
Cynllun Plismona 2010-2013

High Level Priorities	Basic Command Units	Operations Support (including Escorts)	Human Resources & Organisational Development	Corporate Development	IT and Communications	Finance	Procurement and Estates	Special Branch	Programme Board
£5,455M									
2010/11 Cyllidebau Refeniw Adrannol – £000's	40,211	2,940	2,144	1,787	3,723	941	988	704	_
2010/11 Cyllidebau Cyfalaf Adrannol Tebygol £000's	418	361	82	107	612	7	162	_	251

● Prif berchnogaeth o ran cyflawni ● Amcan cyfrannu at y cyflawni

ADRAN 5: RHOI'R RHAGLEN MEWN GRYM

Rhaglen Gwawr Newydd

Dechreuodd yr *Heddlu* weithredu'r cynllun tair blynedd yn Ebrill 2009, gydag argymhellion *Astudiaeth Gallu a Chynhwysedd 2008* a gymeradwywyd yn cael eu sbarduno trwy raglen yn cynnwys nifer o brosiectau diffinedig. Mae'r *Heddlu'n* cynllunio i gwblhau'r prosiectau hyn fel a ganlyn:

- Trwyddedu Gynnau
  Trosi trwydded ynnau dros dro yn drwydded ynnau lawn *Asiantaeth Genedlaethol Gwella'r Heddlu* erbyn Rhagfyr 2010.

- Addasu arfau
  Trosi a rhannu erbyn Medi 2011.

- Trefniadau Gorchymyn a Rheoli Diwygiedig
  Bydd camau cyntaf y datrysiad TG integredig wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2011 – yn amodol ar gymeradwyaeth achos busnes.

- Digon o allu i weithredu pellter saethu ychwanegol yn y cyfnod maith
  Cytunwyd mewn egwyddor ar ateb gyda thair elfen. Erbyn Medi 2011, bydd cynllun busnes a gostiwyd yn llawn ar wedd a ddiweddarwyd.

- Digon o allu i weithredu pellter saethu ychwanegol yn y cyfamser
  Mae digon o allu ar gael yn awr, ond bydd unrhyw waith ychwanegol y mae ei angen yn ddibynnol ar ddeilliant y penderfyniadau ar allu cyfnod maith.

- Rhoi hwb i gymorth cyntaf trawma
  Darperir offer a chwblhau hyfforddiant erbyn Medi 2011.

- Gwell gallu CBRNE
  Darperir offer a chwblhau hyfforddiant erbyn Medi 2011.

- Trefniadau Ymarfer Gwell
  Adolygir y rhaglen ymarfer, datblygir strategaeth a rhoi rhaglen ymarfer yn unol â'r strategaeth ddiwygiedig mewn grym erbyn Medi 2011.

Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear
Cynllun Plismona 2010-2013

Rhaglen y Dyfodol

Mae Rhaglen y Dyfodol ar drothwy'r gwaith o ddatblygu rhaglen a chanfod ei hystod. Bydd graddfeydd amser a manylion yr elfennau y gellir eu cyflawni ar gael erbyn diwedd y cyfnod diffinio, y bwriedir ei gwblhau erbyn Medi 2010. Mae'r Rhaglen yn rhychwantu amrediad o feysydd busnes ac, felly, mae rhaniad yn ei chyflawniad rhwng Blaenoriaeth Gyflawni Allweddol 3 – Gwelliant Parhaus ac Ymrwymiad Budd-ddeiliaid a Blaenoriaeth Gyflawni Allweddol 4 – Datblygu a Chynnal Gweithlu Modern.

Disgwylir y byddir yn delio â'r Rhaglen trwy ddilyn y llwybrau gwaith canlynol:

- Model Plismona a ddatblygwyd sy'n cyfarfod â chynlluniau gwrth-derfysgaeth ar safleoedd lle mae'r *Heddlu* wedi eu lleoli ar hyn o bryd, ac ar gyfer safleoedd y bydd efallai angen eu gwasanaeth yn y dyfodol.

- Moderneiddio'r gweithlu sy'n galluogi rhoi'r Model Plismona a ddatblygwyd mewn grym a hynny'n sicrhau cyflawni gweithredol effeithlon, effeithiol a chynaliadwy.

- Telerau ac amodau diwygiedig ar gyfer staff yr *Heddlu* a'r rhain yn braenaru'r ffordd i foderneiddio'r gweithlu , a chefnogi hynny.

- Ail weithio prosesau sy'n cefnogi darparu is-adeiledd a fydd yn fodd o sicrhau bod cyflawni gweithredol yn digwydd yn effeithlon ac effeithiol.

- Cynigion ar gyfer model ariannu diwygiedig.

- Cynllunio Busnes wedi ei integreiddio rhwng yr *Awdurdod Heddlu* a'r *Heddlu* dros gyfnod o dair i bum mlynedd.

- Cyfleoedd i gydweithio gyda heddluoedd eraill sy'n arwain at enillion effeithlonrwydd neu effeithiolrwydd ar gyfer yr *Heddlu*.

Rhagwelir y bydd y llwybrau gwaith hyn yn cael eu cwblhau dros gyfnod o dair i bum mlynedd.

Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear
Cynllun Plismona 2010-2013

ADRAN 6: GWEITHREDU BLAENORIAETHAU PLISMONA LEFEL UCHEL

Mae pob blaenoriaeth lefel uchel yn cael ei neilltuo i un o bedwar maes cyflawni gyda ffocws penodol er mwyn cynorthwyo gyda rheoli'r cynllunio a'r perfformiad .

Blaenoriaeth Gyflawni Allweddol 1 – Gallu Gweithredol

Amddiffyn a gwarchod deunyddiau a chyfleusterau niwclear ar safleoedd trwyddedig dynodedig niwclear ac ar daith trwy'r DU/arena ryngwladol ac, os oes angen, adfer rheolaeth dros unrhyw ddeunyddiau niwclear o'r fath y gellid bod wedi eu colli i unrhyw bersonau anawdurdodedig, trwy gyfarfod â gofynion y Rheolydd Diogelwch Niwclear – *Swyddfa ar gyfer Diogelwch Sifil Niwclear* (byrfodd Saesneg, *OCNS*).

Blaenoriaeth Gyflawni Allweddol 2 – Y Deunydd Gorau o Adnoddau

Sicrhau bod yr *Heddlu* yn cael ei reoli mewn ffordd sy'n cael y gorau o'i holl adnoddau ac yn arddangos gwerth am arian.

Blaenoriaeth Gyflawni Allweddol 3 – Gwelliant Parhaus & Ymrwymiad Budd-ddeiliaid

Cynnal, gwella ac arddangos y gwerth a ychwanegir at weithgareddau budd-ddeiliaid, oddi mewn ac oddi allan i'r diwydiant niwclear.

Blaenoriaeth Gyflawni Allweddol 4 – Datblygu a chynnal gweithlu modern

Parhau i ddatblygu a chynnal gweithlu modern gyda'r sgiliau a'r medrau angenrheidiol i gyflawni'r Blaenoriaethau Lefel Uchel.

Mae dyraniad blaenoriaethau mewn perthynas â 2010 – 2011 yn cael eu harenwi yn y Cynllun Plismona Blynyddol yn adran 11.

ADRAN 7: FFRAMWAITH MESUR CERDYN SGORIO CYTBWYS

Caiff blaenoriaethau lefel uchel yr *Heddlu* eu rhoi mewn categorïau yn ôl pedwar maes cyflawni a'u mesur o dan Fframwaith Perfformiad Cerdyn Sgorio Cytbwys. Mae'r Fframwaith yn mesur llwyddo i gyfllawni'r blaenoriaethau ac yn caniatáu i'r *Awdurdod Heddlu* asesu'n gyson sut y mae'r blaenoriaethau'n cael eu gyflawni.



Bydd Fframwaith Cerdyn Sgorio Cytbwys yr Heddlu yn darparu diweddariadau rheolaidd ar berfformiad yn erbyn amcanion a'r Mesurau Perfformiad Allweddol o fewn y Cynllun Plismona am 2010 – 2011 ar gyfer Pwyllgor Perfformiad, Cynllunio a Chyllid yr *Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear*.

ADRAN 8: ADEILADU NIWCLEAR NEWYDD

Bydd yr *Heddlu Sifil Niwclear* yn parhau i dracio amserlen adeiladu newydd y llywodraeth i asesu a gweithredu pob newid angenhreidiol i'r ddapariaeth gwasanaeth sifil niwclear.

Bydd adran gynllunio gweithlu yn gyfarwydd â'r rhaglen adeiladu newydd, ac yn sicrhau bod yr Heddlu mewn safle i ddarparu'r hyblygrwydd i gyfarfod ag anghenion datblygol cwsmeriaid. Bydd asesu bygythiadau ar sail gwybodaeth yn angenrheidiol i gefnogi unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r galw am blismona. Mae llinell amser isod sy'n dangos amseriad adeiladu newydd.



Bydd un pwynt cyswllt yn sicrhau bod datblygiadau o fewn yr amserlen yn cael eu darparu ar gyfer adrannau'r *Heddlu* er mwyn darprau gwybodaeth gogyfer â ffwythiannau gweithredol a chynllunio busnes.

ADRAN 9: ADRAN YNNI A NEWID HINSAWDD

Mae gan yr *Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC)* gyfrifoldeb polisi dros ddiogelwch safleoedd sifil niwclear y DU ac mae'n cyfrannu'n weithredol i ddadleuon rhyngwladol mewn perthynas â safonau amddiffyn materol. Mae *DECC* yn gyfrifol am effeithiolrwydd y gyfundrefn ddiogelwch yn ei chyfanrwydd, gan sicrhau trwy reoliadau cenedlaethol, bod deunyddiau a chyfleusterau sifil niwclear y DU yn cyfarfod â'r ymrwymiadau rhyngwladol priodol.

ADRAN 10: CROESGYFEIRIO AT FLAENORIAETHAU CENEDLAETHOL ERAILL

Mae'r *Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear* a'r *Heddlu Sifil Niwclear* yn atebol i'r *Adran Ynni a Newid Hinsawdd.* Mae'r ddau gorff yn gweithio gyda'r *Swyddfa ar gyfer Diogelwch Sifil Niwclear (OCNS),* yn cefnogi Strategaeth y Deyrnas Unedig ar gyfer Gwrthsefyll Terfysgaeth Ryngwladol (CONTEST) yn uniongyrchol dan arweiniad y S*wyddfa Gartref*. Gall llinellau adrodd gael eu newid o ganlyniad i ailstrwythuro cyfreithiol y Gyfarwyddaeth Iechyd a Diogelwch Niwclear a luniwyd i:

- Greu rheolydd annibynnol, sector benodol, newydd;
- Trosglwyddo cyfrifoldebau a diogelwch ar gyfer cludo a diogelwch i reolydd newydd.

Mae *Deddf Ynni 2004* yn galw ar i'r *Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear* roi ystyriaeth briodol i Flaenoriaethau Plismona Strategol Cenedlaethol.

- Gweithio gyda a thrwy bartneriaid a chymunedau lleol i daclo terfysgaeth ac eithafiaeth drahaus yn unol â strategaeth gwrth-derfysgaeth (*CONTEST*) a *Chytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus 26.*

- Gweithio gyda heddluoedd ac asiantaethau eraill, megis Asiantaeth Troseddau Difrifol Mawr (byrfodd Saesneg - SOCA) ac *Asiantaeth Ffiniau'r DU*, i sicrhau bod y gallu a'r digonolrwydd yn bodoli ar draws Cymru a Lloegr i gyflawni gwasanaethau amddiffyn effeithiol, gan gynnwys taclo troseddau difrifol a rhai a drefnwyd ar raddfa fawr.

- Yn y cyfan o'r uchod, sicrhau bod gwerth am arian yn ganolog i'r weledigaeth strategol ar gyfer gwella plismona; bod y defnydd gorau yn cael ei wneud o adnoddau - yn unol â'r *Papur Gwyn* ar blismona a'r *Strategaeth Effeithlonrwydd a Chynhyrchiant ar gyfer Gwasanaeth yr Heddlu* - oddi mewn i heddluoedd, a thrwy gydweithio rhwng heddluoedd a gyda'r sector gyhoeddus ehangach, a bod prif swyddogion ac uwch arweinyddion gyda chyswllt gweladwy â'r flaenoriaeth gyfundrefnol hon.

Cafodd y blaenoriaethau hyn eu gweu i mewn i'r llwybrau gwaith allweddol ar gyfer 2010/11. Gellir cael gwybodaeth am Flaenoriaethau Plismona Strategol Cenedlaethol yn:

www.police.homeoffice.gov.uk/publications/national-policing-plan/strategic-policing-priorities

Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus 26 Mae gofynion y cytundeb wedi cael eu hadolygu a'u hymgorffori, ble bo'n briodol, o fewn yr *Adolygiad Gallu a Digonolrwydd* diweddar ac maent hefyd yn rhan sylfaenol o gynlluniau gwrth-derfysgaeth. Mae datblygu'r mesurau perfformiad cysylltiedig, sydd dan arweiniad *Cymdeithas Prif Swyddogion Materion Terfysgaeth a Chysylltiedig yr Heddlu* yn mynd i gael eu monitro a'u gweithredu fel y bo'n briodol.

Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus 15 Mae'r gofynion wedi cael eu hadolygu a'u hymgorffori, lle bo'n briodol, o fewn Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol 2010 – 2013. Mae mesurau Cerdyn Sgorio Cytbwys, y mae manylion amdanynt yng Nghynllun Plismona 2010/11, yn arddangos mesurau perfformiad cyfundrefnol.

DATGANIAD GWERTH AM ARIAN

Mae *Papur Gwyn 2009 – Amddiffyn y Cyhoedd: Cefnogi Llwyddiant yr Heddlu* – yn galw ar i awdurdodau heddlu adrodd ar berfformiad gwerth am arian. Ceisir yn weithredol ganfod cyfleoedd i sicrhau enillion effeithlonrwydd ychwanegol a ffurfiant agwedd allweddol o Raglen y Dyfodol. Mae cyfarfod â Model Dewis Gwybodus yr *HMIC* – Cydweithio i Gaffael - a *Phapur Gwyn 2009* yn ganolog i strategaeth yr *Heddlu* ar gyfer defnyddio adnoddau nad ydynt yn ddihysbydd yn effeithlon ac effeithiol ac ar gyfer sicrhau Gwerth am Arian.

Rhaid parhau i gydweithio os am reoli costau'n effeithiol. Enghraifft o ymrwymiad yr *Heddlu* i gydweithio yw ei fod yn aelod o'r *Consortiwm Chiltern Transport* . Mae defnyddio'r consortiwm hwn yn gostwng costau'n sylweddol ac yn gwella ansawdd gwasanaeth trwy hyrwyddo trefniadau rhannu fflyd cerbydau gyda thri gwasanaeth heddlu arall mwy eu maint.

Yn 2008/09, rhoddwyd blaenoriaeth i brosiectau *Heddlu*, gan ganiatáu ailgyfeirio adnoddau tuag at weithgareddau mwy hanfodol, er enghraifft cyflawni gwell gallu gweithredol.

Effeithlonrwydd yn y Dyfodol

Fel rhan o daliad ariannu llawn 2010/11 yr Heddlu, adnabuwyd cynilion effeithlonrwydd targed yn cyfateb i swm o £1,200,000. Bydd y cynilion hyn yn cael eu creu ar draws pob cyllideb trwy ymgymryd ag adolygiad manwl o gynigion cyllideb uned ac adran, gan dargedu adnoddau ariannol at y gweithgareddau hynny sydd â chysylltiad uniongyrchol â chyflawni Blaenoriaethau Lefel Uchel yr *Heddlu*. Ar ben yr ymrwymiad hwn, byddir yn adnabod £250,000 o gynilion cyllideb ac effeithlonrwydd eraill ac yn eu hailfuddsoddi yn Rhaglen y Dyfodol.

Y meysydd ffocws allweddol ar gyfer creu gwelliant o ran costau yw:

- gweithredu rhaglen hyfforddi mwy effeithlon sy'n caniatáu i swyddogion ddatblygu eu sgiliau tra ar ddyletswydd;
- mabwysiadu arferion gweithlu modern: er enghraifft, defnyddio staff o blith y cyhoedd ar gyfer rhai swyddogaethau ystafell reoli, gan sicrhau bod yr uchafswm o swyddogion wedi eu hyfforddi ar gael ar gyfer dyletswyddau plismona llinell flaen;
- rhesymoli adeiladau ac ystafelloedd i wella effeithiolrwydd a gostwng argostau y stad;
- adolygu a rhesymoli systemau a strwythurau gwybodaeth cyfredol;
- defnyddio trefniadau cydweithio, pryd bynnag y bo modd, er mwyn creu effeithlonrwydd gweithredol: er enghraifft, y consortiwm *Computer Sciences Corporation Ltd* a chonsortiwm cyflogres *Trysorlys EM* ; a
- defnyddio cytundebau caffael cenedlaethol er mwyn cael mynediad at ddisgownt prynu swmp ac i symleiddio'r ffwythiant caffael.

Mae Rhaglen y Dyfodol yn ceisio adnabod a gwneud y gorau o gyfleoedd i gynhyrchu rhagor a chael enillion effeithlonrwydd trwy foderneiddio'r gweithlu, datblygu cyfundrefnau gwybodaeth integredig i gefnogi gweithrediadau'r *Heddlu* a sicrhau bod model ariannu'r *Heddlu* yn cyfarfod â'i anghenion newidiol. Bydd Rhaglen y Dyfodol yn tynnu ar brofiad rhaglenni gwelliant sy'n cael eu gweithredu ar draws ystod o sefydliadau sector gyhoeddus, er enghraifft, *Operation Quest* yr Heddluoedd *Swyddfa Gartref* a rhaglen *Pacesetter* yn adran *Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi*. Nid oes disgwyl i Raglen y Dyfodol ddechrau dangos ei gwerth yn ystod y flwyddyn ariannol 2010/11, ond caiff gwaith paratoi arwyddocaol ei gwblhau fel y bydd buddiannau a chynilion effeithlonrwydd mewn blynyddoedd dilynol.

CYNLLUN PLISMONA 2010 - 2011

ADRAN 11: Mae gweddill y ddogfen hon yn benodol berthnasol i Flaenoriaethau Lefel Uchel a thargedau 2010/2011

BLAENORIAETH GYFLAWNI ALLWEDDOL 1: GALLU GWEITHREDOL

1) Cyflawni gallu'r Heddlu – Rhaglen Gwawr Newydd:

1.1) Cwblhau cynllun gweithredu 2 flynedd, gan gynnwys gweithredoedd diffiniedig y mae eu hangen er mwyn cael achrediad NPIA llawn erbyn 31ain Rhagfyr 2010.

1.2) Gweithredu'r bas-data cofnodion gynnau i'r safonau angenrheidiol erbyn 31ain Mawrth 2011.

1.3) Uwchraddio Rhaglen Hyfforddiant ac Ymarferion yr Heddlu, gan gynnwys parhau i gymryd rhan yn ymarferion SLC and OCNS, gyda'r bwriad o ddarparu adroddiadau o ansawdd i'r Awdurdod Heddlu ddwywaith y flwyddyn. Darparu rhaglen a gostiwyd yn llawn i'r Awdurdod ar gyfer 2011/12.

1.4) Cwblhau cam cyntaf CBRNE, DIT a hyfforddiant Swyddog Gofal Tactegol erbyn 31ain March 2011.

2) Cyflawni Digonolrwydd yr Heddlu

2.1) Cwblhau dadansoddiad o fylchau ac asesiad fesul safle o'r digonolrwydd y mae ei angen i ateb y galw gweithredol erbyn 30ain Medi 2010.

3) Cynlluniau gwrth-derfysgaeth: Parhau i gwblhau a gweithredu cynlluniau gwrth-derfysgaeth ar draws yr Heddlu er mwyn cefnogi cyflawni'r genhadaeth yn well.

3.1) Cwblhau blwyddyn 2 o'r prosiect cynlluniau gwrth-derfysgaeth; gweithredu unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol, eu hintegreiddio i gynlluniau diogelwch safle a gwneud argymhellion ar gyfer y Cynllun Plismona Strategol a threfniadau allanol erbyn 31ain Rhagfyr 2010.

4) Hebrwng: Sicrhau bod yr Heddlu yn parhau i allu darparu gallu hebrwng addas i'r diben ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

4.1) Cwblhau adolygiad o ddigonolrwydd, gallu a threfniadau allanol hebrwng erbyn 30ain Medi 2010.

4.2) Sicrhau bod yr Heddlu yn cydweddu ei allu hebrwng gyda threfniadau ar lefel genedlaethol.

5) Gwybodaeth: Uwchraddio a ffurfioli'r gallu i roi a lledaenu gwybodaeth er mwyn rhoi gwasanaeth gweithredol effeithiol.

5.1) Gweithredu Strategaeth Wybodaeth yr Heddlu erbyn 30ain Medi 2010.

BLAENORIAETH GYFLAWNI ALLWEDDOL 1: GALLU GWEITHREDOL
Mesurau Perfformiad Allweddol:

Meysydd	Meysydd
Defnyddio Profi Perfformiad	Defnyddio Profi Perfformiad

BLAENORIAETH GYFLAWNI ALLWEDDOL 2: DEFNYDD GORAU O ADNODDAU

6) Gorchymyn a Rheoli: Parhau i adolygu ac uwchraddio gweithdrefnau a chyfundrefnau Gorchymyn a Rheoli i gyfarfod â gofynion trwyddedu a rhai gweithredol.

6.1) Gweithredu Cam 3 (Camau prosiect 3.1 to 3.6) o gyfundrefn TG Gorchymyn a Rheoli integredig erbyn 31ain Mawrth 2011.

7) Datblygu cyfundrefnau TG: Parhau i wella cyfundrefnau uwchraddio TG a gwelliannau rhwydwaith i alluogi effeithlonrwydd cyfundrefnau.

7.1) Uwchraddio cyfundrefnau gwybodaeth Heddlu yn llwyr erbyn 31ain Mawrth 2011.

7.2) Gweithredu cyfundrefn drosglwyddo i symud deunyddiau electronig rhwng systemau diogel a rhai heb eu gwarchod erbyn 31ain Mawrth 2011.

7.3) Cwblhau adolygiad o drefniadau perthnasol i wahanu ac uwchraddio SAP erbyn 30ain Medi 2010.

7.4) Fideo-gynadledda CYFYNGEDIG ar gael mewn lleoliadau dynodedig erbyn 30ain Mehefin 2010.

7.5) Cwblhau asesiad o ofynion VOIP yr Heddlu erbyn 30ain Medi 2010.

8) Cyllideb: Hyrwyddo darogan yr hyn y gellir ei ragweld a chyflawni gwasanaeth gwerth am arian.

8.1) Cyflawni amcanion Cynllun Plismona Blynyddol o fewn y gyllideb erbyn 31ain Mawrth 2011.

8.2) Llwyddo i adnabod ac adrodd ar gynhyrchedd a materion effeithlonrwydd wedi cael ei gyflawni erbyn 31ain Mawrth 2011.

9) Adeiladu newydd: Sicrhau bod yr Heddlu yn cael gwybod am ofynion sy'n datblygu gan y cwsmer ac yn paratoi ar gyfer hynny.

9.1) Cynhyrchu llinell amser datblygiad strategol 15-mlynedd, gan gymryd i ystyriaeth oblygiadau adeiladu newydd, datgomisiynu safleoedd a digwyddiadau strategol eraill erbyn 10fed Mai 2010.

BLAENORIAETH GYFLAWNI ALLWEDDOL 2: DEFNYDD GORAU O ADNODDAU

Mesurau Perfformiad Allweddol:

Meysydd	Meysydd
Cyllideb	Cyllideb
Goramser	Goramser
Cyfarpar hanfodol	Cyfarpar hanfodol
Cynilion effeithlonrwydd	Cynilion effeithlonrwydd

Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear
Cynllun Plismona 2010-2011

BLAENORIAETH GYFLAWNI ALLWEDDOL 3: GWELLIANT PARHAUS AC YMRWYMIAD BUDD-DDEILIAID

10) Gwella ymrwymiad budd-ddeiliaid.

10.1) Cydweithio gyda'r Awdurdod Heddlu i adnabod grwpiau budd-ddeiliaid erbyn 19eg Mai 2010.

10.2) Adnabod y gwelliannau angenrheidiol ar gyfer ymrwymiad budd-ddeiliaid a chytuno sut y llwyddir i roi unrhyw newidiadau angenrheidiol mewn grym erbyn 31ain Mawrth 2011.

10.3) Parhau i ddatblygu Rhwydweithiau Allweddol Unigol erbyn 31ain Mawrth 2011.

10.4) Ymgymryd ag arolwg staff erbyn 31ain Mawrth 2011.

11) Rhaglen y Dyfodol: Cwblhau cyfnod "Diffinio" rhaglen y Dyfodol.

11.1) Ymgymryd ag adolygiad ac adnabod dewisiadau ar gyfer gwella'r broses dyrannu adnoddau erbyn 30ain Medi 2010.

11.2) Paratoi prosiect i weithredu'r prosesau dyrannu adnoddau a ddewiswyd (Prosiect i gael ei gychwyn yn ystod 2011/12) erbyn 31ain Mawrth 2011.

11.3) Cynhyrchu achos busnes ar gyfer gweithredu'r ffrydiau ariannu a ddatblygwyd erbyn 30ain Medi 2010.

11.4) Paratoi prosiect i weithredu'r ffrydiau ariannu a ddatblygwyd (prosiect i gael ei gychwyn yn ystod 2011/12) erbyn 31ain Mawrth 2011.

BLAENORIAETH GYFLAWNI ALLWEDDOL 3: GWELLIANT PARHAUS AC YMRWYMIAD BUDD-DDEILIAID	
Mesurau Blaenoriaeth Allweddol:	
Meysydd	Meysydd
Cofrestr risg	Cofrestr risg
Llwyddo i gyflawni Meysydd ar gyfer Gwelliant	Llwyddo i gyflawni Meysydd ar gyfer Gwelliant
Gweithredu argymhellion ymarfer	Gweithredu argymhellion ymarfer
Cwynion gan y cyhoedd	Cwynion gan y cyhoedd

BLAENORIAETH GYFLAWNI ALLWEDDOL 4: DATBLYGU A CHYNNAL GWEITHLU MODERN

11) Rhaglen y Dyfodol: Cwblhau cam "Diffinio" Rhaglen y Dyfodol.

11.5) Cynhyrchu achos busnes ar gyfer gweithredu model gweithlu a ddiweddarwyd, ac yn cynnwys cynigion ar gyfer telerau ac amodau diwygiedig ar gyfer staff yr Heddlu erbyn 30ain Medi 2010.

11.6) Paratoi prosiect i weithredu'r model gweithlu a ddiweddarwyd (prosiect i gael ei gychwyn yn ystod 2011/12) erbyn 31ain Mawrth 2011.

12) Hyfforddiant a Datblygiad: Cynllunio, cyflawni a gwerthuso rhaglen hyffrddiant Heddlu er mwyn datblygu a chynnal y sgiliau a'r medrau angenrheidiol.

12.1) Gweithredu cynigion 2009/10 ar gyfer cyflawni hyfforddiant sylfaenol erbyn 31ain Mawrth 2011.

12.2) Mabwysiadu Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth yr Heddlu erbyn 31ain Mawrth 2011.

12.3) Cwblhau asesiad o ddeilliannau'r arolwg staff erbyn 31ain Mai 2010 a gweithredu'r newidiadau angenrheidiol erbyn 31ain Mawrth 2011.

BLAENORIAETH WEITHREDU ALLWEDDOL 4: DATBLYGU A CHYNNAL GWEITHLU MODERN

Mesurau Perfformiad Allweddol:

Meysydd	Mesur
Sefydliad a grym	Cynnal y cyflenwad
Rhagolygon Recriwtio	Cynnal graddfa llwyddiant recriwtio o fewn y targed +/- 5%.
Cyfradd argadw	Tracio lefelau argadw swyddogion/staff.
Swyddogion benyw a recriwtiwyd	Targedau recriwtio'n ôl rhyw i gael eu gosod yn lleol yn dibynnu ar y safle (safleoedd) y mae angen recriwtio ar ei chyfer.
Swyddogion a recriwtiwyd o blith Grwpiau Ethnig lleiafrifol	Targedau recriwtio lleol o blith Grwpiau Ethnig Lleiafrifol i gael eu gosod yn dibynnu ar y safle (safleoedd) y mae angen recriwtio ar ei chyfer.
Absenoldeb afiechyd Swyddogion	Gostwng lefelau absenoldeb afiechyd yn eu cyfanrwydd o 10% ar allbwn diwedd blwyddyn (2009/10). Gostwng absenoldebau afiechyd cyfnod byr o 10% ar allbwn diwedd blwyddyn (2009/10). Gostwng absenoldebau afiechyd cyfnod maith o 10% ar allbwn diwedd blwyddyn (2009/10).
Absenoldeb afiechyd staff yr Heddlu	Gostwng lefelau absenoldeb afiechyd yn eu cyfanrwydd o 15% ar allbwn diwedd blwyddyn

	(2009/10). Gostwng absenoldebau afiechyd cyfnod byr o 15% ar allbwn diwedd blwyddyn (2009/10). Gostwng absenoldebau afiechyd cyfnod maith o 15% ar allbwn diwedd blwyddyn (2009/10).
Cydymffurfio â chynllun hyfforddiant	Mesurau cynllun hyfforddi a gymeradwywyd.
Adolygiadau Datblygiad Personol	Bod wedi cwblhau 85% o'r adolygiadau erbyn 30/06/2010 a 95% erbyn 31/07/2010.

ADRAN 12: YSTADEGAU PERFFORMIAD

Nid yw Ystadegau Perfformiad 2009/2010 ar gael cyn cyhoeddi'r ddogfen hon. Cyflwynir data ystadegol llawn yn yr *Adroddiad Blynyddol,* i'w gyhoeddi ym Mehefin 2010.

ADRAN 13: CRYNODEB ARIANNOL

Cyllideb ac adnoddau

Mae cyllideb refeniw yr *Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear* yn ei chyfanrwydd ar gyfer y flwyddyn 2010/2011 yn £61,674,000 ac mae disgwyl i'r dyraniad cyfalaf yn ei gyfanrwydd fod oddeutu £2,000,000. Caiff hyn ei ariannu gan yr *Awdurdod Datgomisiynu Niwclear*, *British Energy Generation Ltd* ac *URENCO UK Ltd*, trwy'r sefydliadau sydd angen eu plismona gan yr *Heddlu Sifil Niwclear.* Mae manylion yn y siart isod.

Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear
Cynllun Plismona 2010-2011